

% o'r holl weithgaredd yn ystod y chwarter hwn sy'n berthnasol i'r sector llaeth




Prosiectau Safleoedd Arddangos

Graig Olway: Lleihau cloffni mewn buches odro robotaid


Mae safle arddangos Graig Olway, ger Brynbuga, ar hyn o bryd yn cynnal prosiect yn edrych sut i leihau cloffni yn y fuches laeth. Mae'r fferm wedi cyflwyno gweithgaredd trimio traed bob pythefnos sydd wedi eu galluogi i leihau nifer y gwartheg sydd â sgôr symudedd o 2 a 3 i 14% rhwng Medi a Rhagfyr. Mae canlyniadau'r prosiect yn dangos bod llai o wartheg yn mynd yn gloff a bod mwy o wartheg gyda thraed iach fel y gwelir yn y graff isod.

Ffigwr 1. Cymhariaeth o nifer y gwartheg gloff a'r gwartheg gyda thraed iach ar sgorau blaenorol



Mae'r prosiect hefyd wedi gweld bod llai o wartheg yn dioddef o gloffni cronig a bod nifer yr achosion newydd o gloffni wedi lleihau. Mae'r gwartheg cronig hefyd yn gwella'n dda heb unrhyw achosion cronig newydd ers yr haf. Ym mis Medi, roedd bron i 1 o bob 3 buwch iach yn mynd yn gloff, ac ar ddiwedd mis Tachwedd, roedd y ffigwr yn 1 o bob 8 sy'n welliant sylweddol. Mae Ffigwr 2 yn dangos y gwelliant o ran sgorau symudedd y fuches dros y chwe mis blaenorol; mae'n amlwg bod symudiad sylweddol wedi bod o sgorau 2 a 3 i sgorau 1 a 0. Bydd y gwelliant yn nifer yr achosion o gloffni ar y fferm yn cael effaith sylweddol ar les a chynhyrchiad ar y fferm.

Ffigwr 2. Sgorau cyfartalog y fuches rhwng mis Mehefin a Rhagfyr 2020.



Nantglas: Gwella ffrwythlondeb mewn buches sy'n lloia mewn dau flocc

Mae Iwan yn anelu at gynyddu'r % lloia 6 wythnos a % y gwartheg sy'n gyflo o fewn 6 wythnos. Mae'n gwneud newidiadau i nifer o'i arferion rheoli, gan nad oes un rheswm penodol yn gyfrifol am ffrwythlondeb isel, gan obeithio tynhau'r bloc lloia a sicrhau bod % y gwartheg gwag yn is na 10%.

Dechreuodd tymor lloia'r hydref ar 14 Awst ac erbyn 21 Medi, roedd 82 o'r 110 o wartheg wedi dod â lloia (74%) gan olygu bod tymor lloia'r hydref ychydig yn hwy nag y byddai wedi'i ddymuno. Fodd bynnag, drwy werthu 8 o'r gwartheg a oedd yn hwyr yn lloia, cynyddodd y % lloia o fewn chwe wythnos i 87% sy'n agos at y dangosydd perfformiad allweddol o 90% a osodwyd ar gyfer y fferm.


Cafodd y gwartheg sy'n lloia yn y gwanwyn eu sganio ar 17 Medi gan ddangos cyfradd o 15% o wartheg gwag, sy'n uwch na'r disgwyl. Fodd bynnag, llwyddwyd i sicrhau cyfradd feichiogi o fewn 6 wythnos o 71% (targed o 78%) ac roedd 28 o'r 29 o heffrod yn gyflo. Ar 1 Gorffennaf ar ôl 6 wythnos o AI, roedd 31 o'r gwartheg yn wag, gyda'r tarw'n beichiogi 15 yn unig, a oedd yn dylanwadu'n sylweddol ar nifer y gwartheg gwag. Mae hyn wedi codi cwestiynau ynglŷn â ffrwythlondeb y tarw, a bydd hynny'n cael ei archwilio. Roedd y gwartheg yn godro'n dda yn ystod y cyfnod, ond mae'n bosibl bod problem Pica ar y fferm hefyd wedi effeithio ar ffrwythlondeb y gwartheg.

Mae camau nesaf y prosiect yn cynnwys arsylwi canlyniadau'r gwaith sydd wedi'i wneud hyd yn hyn. Rydym yn disgwyl i'r canlyniadau sganio ddangos y dylai Iwan fod yn lloia 100 o wartheg o fewn 40 diwrnod a chanlyniadau'r cynllun paru a'r rhaglen gydamseru a ddefnyddiwyd gyda'r heffrod. Bydd Iwan hefyd yn cymryd samplau gwaed gan yr heffrod cyflo sy'n barod i ddod â lloia yn y gwanwyn i brofi ar gyfer Neospora a chynnal profion ar gyfer IBR drwy'r tanciau llaeth.

Mountjoy: Dewis gwell anifeiliaid cyfnewid o fewn buches sy'n lloia yn y gwanwyn ac yn cael ei phorthi ar laswellt

Mae cymariaethau cynnar o'r canlyniadau gwirioneddol o ran cynhyrchiad a genomeg ar fferm Mountjoy wedi amlygu cydberthynas dda rhwng geneteg a pherfformiad ar gyfer % braster a phrotein. Mae 71 o'r heffrod a gafodd brofion genomeg fel heffrod cyflo ym mis Rhagfyr 2019 bellach wedi cynhyrchu gwerth 3 chofnod llaeth o ddata cynhyrchiad i'w gymharu gyda'r GPTA (gallu trosglwyddo genomig a ragwelir), gweler Graff 3. Mae Mountjoy yn un o'r buchesi cyntaf yng Nghymru sy'n lloia yn y gwanwyn ac yn cael ei phorthi ar laswellt i ddefnyddio detholiad genomeg i arwain enillion genynnol er mwyn gwella effeithlonrwydd cynhyrchiad. Bydd nod o sicrhau anifeiliaid gyda chymhareb uchel o ran solidau llaeth i bwysau byw (kgMS/kgLVV) yn sicrhau gwell Effeithlonrwydd Trosi Porthiant a llai o allbynnau methan fesul kgMS. Trwy barhau i ddedol gan ddefnyddio genomeg, bydd modd adnabod a gosod heffrod yn ôl eu trefn o ran cyfansoddiad y llaeth, hirhoedledd a nodweddion iechyd yn gynt, gan sicrhau mai dim ond yr heffrod mwyaf effeithlon sy'n cael eu cadw a'u bridio i mewn i'r fuches odro.

Graff 3: Cydberthynas rhwng GPTA llaeth a chynnyrch llaeth dyddiol ar gyfartaledd yn seiliedig ar dri recordiad



Asesu potensial cynnal profion genomig ar heffrod llaeth i gynyddu enillion geneteg ac elw ariannol



Yn hanesyddol, mae gwerthoedd bridio tybiedig wedi cael eu defnyddio fel sylfaen ar gyfer penderfyniadau bridio, ond dim ond 35% yw dibynadwyedd etifeddu nodweddion y fuwch a'r tarw o ran rhagweld perfformiad at y dyfodol. Gyda chyflwyniad profion DNA genomig, ceir cyfle i gynyddu dibynadwyedd y gwerthoedd bridio hyn o 35% i rhwng 60-70%. Fodd bynnag, mae profion genomig yn ychwanegu £30 at gostau magu, ac ni ellir adfer y costau hynny tan gyfnod llaetha cyntaf yr heffer ddwy flynedd yn ddiweddarach. Nod y prosiect oedd ymchwilio a oes gwerth talu'r costau ychwanegol hyn.

Canfyddiadau'r prosiect:

- Roedd manylion y teirw yn anghywir ar gofnodion 21 o'r heffrod – mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn gywir ac yn ddibynadwy fel sylfaen i benderfyniadau at y dyfodol
- Arweiniodd senario fridio ddamcaniaethol at 23% o heffrod yn cael eu bridio'n anghywir, gan arwain at golledion posibl o £6,941 o ran £PLI ar gyfer y genhedlaeth nesaf
- Cyfrifwyd fod budd cynnal profion genomig werth £19.39 fesul anifail

Cynhyrwyd fideo yn amlygu'r buddion i ffermwyr o ganlyniad i gymryd rhan yn y prosiect. Cliciwch [yma](#) i wyllo.

Grwpiau Trafod



Nifer y Grwpiau Trafod Llaeth: 13

Astudiaeth Achos

Grŵp Trafod Llaeth y Drenewydd – Ynni adnewyddadwy: yr opsiynau

Yn ystod y cyfarfod grŵp trafod yma, bu David Jones o Hafod Renewables yn trafod rhai o'r prif dechnolegau sydd ar gael ar hyn o bryd a'u manteision. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Paneli Solar PV (ar raddfa fach) – Gallai arwain at arbediad blynyddol o tua £1,800.
- Gwres Solar – Gallai'r system hon arwain at leihad o £1,360 yn yr ynni a ddefnyddir a lleihau'r angen i fewnforio trydan.
- Paneli Solar PV (ar raddfa ehangach) – Enghraifft: Byddai fferm gyda system 80kW sy'n darparu 60% o gyfanswm gofynion ynni'r fferm yn golygu arbedion o £11,000 y flwyddyn.
- Pwmp gwres daear – Arbedion tanwydd o oddeutu £3,000 y flwyddyn.
- Batri – Mae hwn yn gweithio drwy storio ynni er mwyn gallu ei ddefnyddio ar adeg wahanol.

Yn dilyn y cyflwyniad, cafodd aelodau'r grŵp gyfle i ofyn cwestiynau ynglŷn â'r gwahanol systemau. Cawsant eu hatgoffa am y cymorthfeydd digidol 1 i 1 sydd ar gael drwy Cyswllt Ffermio.

Cymorthfeydd

Cynhaliwyd 21 o gymorthfeydd

Roedd y prif bynciau'n cynnwys:



2 Gymhorthfa cyfrifeg

4 Chymhorthfa gyfreithiol ac olyniaeth

3 Cymhorthfa cynllunio

Derbyniodd fusnes llaeth gyngor gan gyfrifedd er mwyn adolygu eu busnes a datblygu gwell dealltwriaeth o gyfrifon y fferm a goblygiadau treth.

Mae cymorthfeydd yn ddigwyddiadau ar draws sectorau ac mae cymysgedd o ffermwyr o bob sector yn mynychu, gan gynnwys ffermwyr o'r sector llaeth.

Rhaglen Fentora



102

FFERMWR LLAETH

yn cael ei fentora ar hyn o bryd.



Cliciwch [yma](#) i weld y Cyfeirlyfr Mentoriaid.

Gweithdai Iechyd a Lles Anifeiliaid



Cynhaliwyd

15

GWEITHDY

gyda



122

O FYNICHWYR

Gweithdai a gynhaliwyd:

Dolur Rhydd Feirysol Buchol (BVD)



Lleihau cloffni yn y fuches laeth



Lleihau mastitis mewn gwartheg llaeth



Iechyd stoc ifanc



Gweminarau



Mae enghreifftiau o'r gweminarau a gynhaliwyd yn cynnwys:

Symudedd gwartheg: mynd i'r afael â chloffni yn y fuches laeth



Betsys porthiant i wartheg llaeth




Atal a rheoli achosion newydd o fastitis wrth gadw gwartheg dan do



Hyfforddiant

Yn ystod y cyfnod hwn, darparwyd **102** achos o hyfforddiant wyneb i wyneb o fewn y sector Llaeth.

Nifer yr unigolion a dderbyniodd hyfforddiant fesul categori



Cyfanswm fesul categori

Busnes Tir Da Byw

Y cyrsiau mwyaf poblogaidd ym mhob categori oedd:

Unigolion a dderbyniodd hyfforddiant



ROUGH TERRAIN TELESCOPIC LIFT TRUCK

14



DEFNYDDIO MEDDYGINIAETHAU MILFEDDYGOL MEWN MODD DIOGEL

17



MARCHNATA EICH BUSNES

3



DIY FFRWYTHLONI ARTIFFISIAL (AI)

24

E-ddysgu

Rhai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn:

Afiechyd Johne mewn gwartheg



Cloffni gwartheg



Mastitis mewn gwartheg



Rheoli Slyri



Cliciwch [yma](#) i fynd i'r wefan.